Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

## Cytundebau a drafodwyd ar 17 Chwefror 2025

Mawrth 2025

senedd.cymru

# 1. Cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Mae'r Pwyllgor yn trafod effaith cytundebau rhyngwladol a gyflwynir gerbron Senedd y DU, o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010* (Deddf 2010), ar Gymru. Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.

**4.** Wrth drafod cytundeb rhyngwladol, rydym yn ystyried:

- a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 17 Chwefror 2025[1], gwnaethom ystyried saith cytundeb rhyngwladol a oedd wedi'u cyflwyno yn ddiweddar gerbron Senedd y DU:

- Cytundeb Partneriaeth Can Mlynedd y DU ac Wcráin;
- Y DU a Sbaen: Rhyddid Dibynyddion Aelodau Llysgenadaethau Diplomyddol a Swyddfeydd Consylaidd i Geisio Gwaith Cyflogedig;
- Y Cytundeb Ffyniant ac Integreiddio Diogelwch Cynhwysfawr;
- Y Cytundeb Fframwaith ar gyfer Cydweithrediad Rhyngwladol ar Ymchwil a Datblygu Systemau Ynni Niwclear Cenhedlaeth IV;
- Cytundeb Cydweithredu Amddiffyn y DU a Rwmania;
- Cytundeb Cydweithredu Amddiffyn a Diogelwch y DU ac Awstralia;
- Cytundeb ar Derfynu Cytundeb y DU a Slofenia ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau.

**6.** Gwnaethom gytuno i gymryd rhagor o gamau gweithredu mewn perthynas â dau o'r cytundebau hyn. Mae manylion pob un o'r cytundebau, a'n camau gweithredu priodol, wedi'u nodi isod.

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Chwefror 2025

# 2. Cytundebau sydd angen rhagor o gamau gweithredu

### Cytundeb Partneriaeth Can Mlynedd y DU ac Wcráin

**7.** Cyhoeddwyd y cytundeb hwn yn Senedd y DU ar 20 Ionawr 2025 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, y Gymanwlad a Datblygu, David Lammy AS (yr Ysgrifennydd Gwladol). Nid yw dyddiad cau craffu yn berthnasol hyd nes y bydd y cytundeb wedi'i gyflwyno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010.

**8.** Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadarnhau bod Llywodraeth y DU wedi arwyddo partneriaeth 100 mlynedd gydag Wcráin, gan nodi:

> *"The partnership enshrines both sides' commitment to a relationship benefiting the whole of our nations: businesses as well as the Government, communities as well as our military. It consists of a legally binding treaty and a political agreement outlining our co-operation in greater detail."*[2]

**9.** Mae'r bartneriaeth yn cynnwys naw "piler" cydweithredu. Mae gweithgareddau penodol yn rhychwantu diogelwch morwrol, cydweithredu milwrol, partneriaethau gwyddonol a thechnolegol, Cynllun Gwirio Grawn, cydweithrediad ynni (gan gynnwys mwynau critigol a chynhyrchu dur gwyrdd), 100 o bartneriaethau ysgol i feithrin cyfnewidiadau diwylliannol, rhaglen adfer economaidd newydd gwerth £40m o'r enw TIGER (Sbarduno Twf Buddsoddi a Gwydnwch Economaidd) a Deialogau Strategol lefel uchel blynyddol rhwng y DU ac Wcráin.[3]

**10.** Ar 11 Chwefror 2025, cadarnhaodd Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, fod ymgynghori wedi digwydd â Llywodraeth Cymru ar destun y Cytundeb.[4]

**11.** Er bod y cytundeb yn ymwneud â mater cysylltiadau rhyngwladol a gadwyd yn ôl, cytunodd y Pwyllgor i hysbysu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol o'r Cytundeb, yng ngoleuni ei gylch gwaith cysylltiadau rhyngwladol a chyfnewidiadau blaenorol gyda

[2] Datganiad Llafar Llywodraeth y DU: Partneriaeth 100 mlynedd y DU ac Wcráin, 20 Ionawr 2025
[3] Llywodraeth y DU, Datganiad Partneriaeth 100 Mlynedd y DU ac Wcráin, 17 Ionawr 2025
[4] Y Cyfarfod Llawn, 11 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, [382]

Llywodraeth Cymru ar gymorth diwylliannol a ddarparwyd i newydd-ddyfodiaid o Wcráin yng Nghymru.

**Y DU a Sbaen: Rhyddid Dibynyddion Aelodau Llysgenadaethau Diplomyddol a Swyddfeydd Consylaidd i Geisio Gwaith Cyflogedig**

**12.** Cyflwynwyd y cytundeb rhyngwladol hwn gerbron Senedd y DU ar 6 Chwefror 2025. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 20 Mawrth 2025.

**13.** Diben y cytundeb hwn yw caniatáu i aelodau teulu dibynnol (priod, partneriaid neu blant cymwys) o staff a gyflogir mewn cenadaethau diplomyddol a swyddi consylaidd y DU ymgymryd â chyflogaeth gyflogedig yn Sbaen (ac i'r gwrthwyneb).

**14.** Ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd a diwedd hawliau rhyddid i symud, nid yw dibynyddion staff mewn cenadaethau diplomyddol a swyddi consylaidd yn Sbaen wedi gallu ymgymryd â meddiannaeth â thâl y tu allan i'r genhadaeth/swydd yn Sbaen mwyach. I'r gwrthwyneb, mae gan ddibynyddion cymwys diplomyddion tramor a swyddogion consylaidd sydd wedi'u lleoli yn y DU yr hawl i weithio. Mae'r cytundeb hwn yn mynd i'r afael â'r gwahaniaeth hwn rhwng triniaeth y DU a Sbaen o ddibynyddion ei gilydd drwy roi hawliau cyfatebol i ddibynyddion cymwys weithio yn y wladwriaeth sy'n derbyn (Sbaen).

**15.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth newydd i weithredu'r cytundeb.[5]

**16.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl yn llwyr ac nad oes iddo unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r llywodraethau datganoledig, nad yw Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â hwy ynghylch drafftio'r cytundeb hwn.[6]

**17.** Er bod y cytundeb yn ymwneud â pholisi cysylltiadau rhyngwladol a chyflogaeth o fewn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a'r gwasanaeth sifil, sy'n faterion a gadwyd yn ôl, cytunwyd i hysbysu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol o'r cytundeb,

[5] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU a Sbaen: Rhyddid Dibynyddion Aelodau Llysgenadaethau Diplomyddol a Swyddfeydd Consylaidd i Geisio Gwaith Cyflogedig, Chwefror 2025, paragraff 5
[6] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU a Sbaen: Rhyddid Dibynyddion Aelodau Llysgenadaethau Diplomyddol a Swyddfeydd Consylaidd i Geisio Gwaith Cyflogedig, Chwefror 2025, paragraff 10

yng ngoleuni ei gylch gwaith cysylltiadau rhyngwladol a chraffu parhaus ar faterion sy'n codi o’r DU yn ymadael â'r UE.

# 3. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

**Y Cytundeb Ffyniant ac Integreiddio Diogelwch Cynhwysfawr ("C-SIPA")**

**18.** Cyflwynwyd y cytundeb rhyngwladol hwn gerbron Senedd y DU ar 8 Ionawr 2025. Ei dyddiad cau o ran gwaith craffu – fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010 – oedd 12 Chwefror 2025.

**19.** Mae'r Cytundeb Integreiddio a Ffyniant Diogelwch Cynhwysfawr (C-SIPA) yn darparu fframwaith cyfreithiol sy'n anelu at feithrin integreiddio diogelwch rhanbarthol ehangach, hybu ataliaeth ar y cyd yn erbyn bygythiadau allanol ac ehangu cydweithredu ym meysydd masnach, gwyddoniaeth a thechnoleg gyda gwladwriaethau o'r un anian yn rhanbarth y Dwyrain Canol.

**20.** Cytunwyd ar C-SIPA yn wreiddiol ar 12 Medi 2023 rhwng Bahrain ac UDA, ond cafodd ei ddrafftio gyda'r disgwyliad o groesawu partïon ychwanegol yn y dyfodol. Y DU yw'r blaid ychwanegol gyntaf i gael gwahoddiad i ymuno.

**21.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth newydd i weithredu'r cytundeb.[7]

**22.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl yn llwyr ac nad oes iddo unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r llywodraethau datganoledig, nad yw Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â hwy ynghylch drafftio'r cytundeb hwn.[8]

**23.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud ag amddiffyn ac ynni niwclear, sy'n faterion a gedwir yn ôl, cytunwyd i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

**Y Cytundeb Fframwaith ar gyfer Cydweithrediad Rhyngwladol ar Ymchwil a Datblygu Systemau Ynni Niwclear Cenhedlaeth IV**

**24.** Cyflwynwyd y cytundeb hwn gerbron Senedd y DU ar 20 Tachwedd 2024. Ei ddyddiad cau o ran gwaith craffu – fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010 – oedd 24 Chwefror 2025.

[7] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y Cytundeb Ffyniant ac Integreiddio Diogelwch Cynhwysfawr, Ionawr 2025, paragraff 5
[8] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y Cytundeb Ffyniant ac Integreiddio Diogelwch Cynhwysfawr, Ionawr 2025, paragraff 10

**25.** Diben y cytundeb hwn yw creu strwythur newydd ar gyfer cydweithredu rhyngwladol parhaus ar Systemau Ynni Niwclear Generation IV i ddisodli'r Cytundeb Fframwaith presennol sy'n dod i ben ar 28 Chwefror 2025.

**26.** Bydd y cytundeb yn galluogi cydweithredu rhyngwladol i barhau â'r ymchwil a'r datblygiad sydd eu hangen i bennu ymarferoldeb a galluoedd perfformiad y genhedlaeth nesaf o systemau ynni niwclear. Bydd y systemau hyn yn mynd i'r afael â materion allweddol gan gynnwys diogelwch niwclear, rheoli gwastraff, diffyg amlhau a chanfyddiad y cyhoedd.

**27.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth newydd i weithredu'r cytundeb.[9]

**28.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl yn llwyr ac nad oes iddo unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r llywodraethau datganoledig, nad yw Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â hwy ynghylch drafftio'r cytundeb hwn.[10]

**29.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, sef cysylltiadau rhyngwladol ac amddiffyn, gwnaethom gytuno i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

### Cytundeb Cydweithredu Amddiffyn y DU a Rwmania

**30.** Cyflwynwyd y cytundeb rhyngwladol hwn gerbron Senedd y DU ar 20 Ionawr 2025. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 4 Mawrth 2025.

**31.** Diben y cytundeb hwn yw darparu fframwaith cilyddol ar gyfer datblygu a hyrwyddo'r cydweithrediad a'r cysylltiadau dwyochrog rhwng y DU a Rwmania ym maes amddiffyn. Bydd y cydweithrediad hwn yn cael ei gyflawni drwy amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys hyfforddiant, defnyddio cyfleusterau cenedlaethol, cyfnewid ac ymweliadau, ymarferion, cyfarfodydd a sgyrsiau staff.

**32.** Mae'r cytundeb yn adeiladu ar y Memoranda Cyd-ddealltwriaeth dwyochrog presennol (MoUs) rhwng y Llywodraethau a lofnodwyd ym 1996 a

---

[9] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y Cytundeb Fframwaith ar gyfer Cydweithrediad Rhyngwladol ar Ymchwil a Datblygu Systemau Ynni Niwclear Cenhedlaeth IV, Ionawr 2025, paragraff 5

[10] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y Cytundeb Fframwaith ar gyfer Cydweithrediad Rhyngwladol ar Ymchwil a Datblygu Systemau Ynni Niwclear Cenhedlaeth IV, Ionawr 2025, paragraff 10

2019. Bydd yr MoUs hyn yn cael ei derfynu unwaith y daw'r cytundeb i rym. Mae'r cytundeb hefyd wedi'i ategu gan Gytundeb Statws Lluoedd NATO.

**33.** Mae’r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth newydd i weithredu’r cytundeb.[11]

**34.** Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi, gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl yn llwyr ac nad oes iddo unrhyw oblygiadau uniongyrchol i’r llywodraethau datganoledig, nad yw Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â hwy ynghylch drafftio’r cytundeb hwn.[12]

**35.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, sef cysylltiadau rhyngwladol ac amddiffyn, gwnaethom gytuno i nodi’r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

### Cytundeb Cydweithredu Amddiffyn a Diogelwch y DU ac Awstralia

**36.** Cyflwynwyd y cytundeb rhyngwladol hwn gerbron Senedd y DU ar 22 Ionawr 2025. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy’n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 6 Mawrth 2025.

**37.** Diben y cytundeb yw diweddaru'r Cytundeb rhwng y DU ac Awstralia ar Gydweithrediad Amddiffyn a Diogelwch, a lofnodwyd yn 2013.

**38.** Mae'r cytundeb yn diweddaru'r Cytundeb drwy gyflwyno dwy gydran newydd: mae'n ffurfioli'r arfer sefydledig o ymgynghori ar faterion sy'n effeithio ar sofraniaeth a diogelwch rhanbarthol; ac mae'n cynnwys cytundeb statws grymoedd, gan ei gwneud hi'n haws i rymoedd y ddwy ochr weithredu yng ngwledydd ei gilydd.

**39.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y cytundeb yn adlewyrchu'r amgylchedd strategol presennol a phwysigrwydd newydd y berthynas amddiffyn dwyochrog.[13]

[11] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: DU/Romania: Cytundeb ar Gydweithrediad Amddiffyn, paragraff 5
[12] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: DU/Rwmania: Cytundeb ar Gydweithrediad Amddiffyn, paragraff 10
[13] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Awstralia: Cytundeb ar gyfer Cydweithredu Amddiffyn a Diogelwch, Ionawr 2025, paragraff 2

**40.** Mae’r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth newydd i weithredu’r cytundeb.[14]

**41.** Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi, gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl yn llwyr ac nad oes iddo unrhyw oblygiadau uniongyrchol i’r llywodraethau datganoledig, nad yw Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â hwy ynghylch drafftio’r cytundeb hwn.[15]

**42.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, sef cysylltiadau rhyngwladol ac amddiffyn, gwnaethom gytuno i nodi’r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

### Cytundeb ar Derfynu Cytundeb y DU a Slofenia ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau

**43.** Cyflwynwyd y cytundeb rhyngwladol hwn gerbron Senedd y DU ar 30 Ionawr 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy’n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 14 Mawrth 2025.

**44.** Diben y cytundeb yw terfynu Cytuniadau Buddsoddi dwyochrog y pleidiau (BIT), yn unol ag ymrwymiadau'r Undeb Ewropeaidd a wnaed gan y DU pan oedd yn aelod-wladwriaeth.

**45.** Mae’r cytundeb yn cynnwys darpariaethau diogelu buddsoddiad sy’n rhoi ymrwymiadau i fuddsoddwyr ar y driniaeth y gallant ddisgwyl ei chael mewn cysylltiad â buddsoddiadau sefydledig yn nhiriogaeth y wladwriaeth arall. Mae'r darpariaethau hyn yn ceisio amddiffyn buddsoddwyr rhag triniaeth fympwyol, annheg a gwahaniaethol, yn ogystal â difeddiannu heb iawndal.

**46.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, er bod cynnwys polisi'r cytundeb yn fuddsoddiad rhyngwladol, sy'n ymwneud yn llawn â mater a gadwyd yn ôl, o ystyried y ffaith y gallai cynnwys BIT y DU a Slofenia fod yn berthnasol o bosibl i drin buddsoddiadau Slofenia gan y llywodraethau datganoledig, ac i driniaeth yng Ngweriniaeth Slofenia o fuddsoddwyr o'r llywodraethau datganoledig, mae Llywodraeth y DU wedi hysbysu'r llywodraethau datganoledig o’r cytundeb.[16]

[14] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Awstralia: Cytundeb ar gyfer Cydweithredu Amddiffyn a Diogelwch, Ionawr 2025, paragraff 5
[15] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: DU/Awstralia: Cytundeb ar gyfer Cydweithredu Amddiffyn a Diogelwch, Ionawr 2025, paragraff 10
[16] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Slofenia: Cytundeb ar Derfynu’r Cytundeb ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau, a wnaed yn Ljubljana ar 3 Gorffennaf 1996, Ionawr 2025, paragraff 10

**47.** Gan fod y cytundebau'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl, gan gynnwys cysylltiadau rhyngwladol a gwasanaethau ariannol, gwnaethom gytuno i'w nodi er gwybodaeth yn unig.